Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Yn atebol i'r:	Rheolwr Amrywiaeth Cenedlaethol
Cyflog:	Graddfa C CGGC: **£28,507 yn cynyddu i £30,211 y flwyddyn** ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus.
Lleoliad:	Hyblyg: Mae gennym ni ganolfannau swyddfa yn Abergele, Aberystwyth a Chaerdydd y gall staff eu defnyddio. Rydyn ni'n fudiad Cymru gyfan, sy'n golygu y bydd angen mynychu rhai digwyddiadau staff ac ymrwymiadau gwaith penodol yn ôl yr angen.
Math o Gontract:	Cyfnod penodol - tan fis Mawrth 2023
Gwyliau Blynyddol:	25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau banc a phum diwrnod disgresiwn
Teithio:	Ffafrir trafnidiaeth gyhoeddus; pan nad yw hyn yn gyfleus gall staff ddefnyddio'u cerbydau eu hunain neu'r system rhentu car. Telir cyfradd safonol y filltir yn unol â'r cyfraddau a argymhellir gan Gyllid y Wlad
Oriau:	35 awr yr wythnos; yn hyblyg.

Pensiwn: Bydd cyfraniad o 9% o gyflog blynyddol y swydd yn cael ei dalu i mewn i gynllun pensiwn cymeradwy CGGC.

Sgiliau iaith: Byddai sgiliau Cymraeg yn gaffaeliad i'r swydd.

NOD Y SWYDD

Mae CGGC yn ymrwymedig i gael gweithlu ac aelodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru a diwylliant cynhwysol lle gall ein holl gydweithwyr, aelodau a phartneriaid gyfrannu. Rydym hefyd eisiau arwain y ffordd fel cyflogwr enghreifftiol a chorff seilwaith sy'n cefnogi'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle unigryw i unigolyn sy'n canolbwyntio ar gyflenwi weithio gyda staff a rhanddeiliaid i gyfrannu at yr agenda proffil uchel hon. Bydd y rôl yn darparu cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith mewnol CGGC ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a phartneriaid o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), gan ymwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein holl wasanaethau.

* Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn rhwydwaith o fudiadau cymorth ar gyfer yr holl drydydd sector yng Nghymru. Mae'n cynnwys y 19 o gorff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am TSSW yma https://thirdsectorsupport.wales/cy/amdanom-ni/

PRIF DDYLETSWYDDAU

Fel swyddog cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, bydd angen i chi:

- Roi cyngor, arweiniad a chymorth ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru
- Sefydlu partneriaethau gyda mudiadau cydraddoldeb y trydydd sector i ddatblygu digwyddiadau ac adnoddau er mwyn i fudiadau gwirfoddol ddatblygu eu gwaith eu hunain ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- Cyfeirio mudiadau trydydd sector at adnoddau a hyfforddiant a ddarperir gan fudiadau cydraddoldeb

- Rhoi cyngor ac arweiniad i staff CGGC a chefnogi ein gwaith mewnol ar ddatblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- Nodi, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o galendr digwyddiadau ac arferion da o fewn y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus a mudiadau preifat

- Gweithio gyda phartneriaid i nodi, coladu a dadansoddi data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ansoddol a meintiol er mwyn cael mewnwelediad i'r meysydd a chanfod cyfleoedd i wella

- Rhoi arweiniad a chymorth i bartneriaid TSSW* a chydlynu'r cysylltiad ag ymgyrchoedd a mentrau perthnasol, a sut yr ymatebir i'r rhain, ar ran a chyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru

- Archwilio opsiynau ar gyfer cynaliadwyedd y rôl yn y dyfodol drwy gasglu tystiolaeth a mewnwelediad gan y sector ar gyfer rhaglen gymorth barhaus

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o bryd i'w gilydd, neu fel y bo angen, yn sgil anghenion datblygiadol y gwasanaeth neu fudiad.

Gan fod CGGC yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gyllid Ewropeaidd (drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) gallai rhai o'ch dyletswyddau ofyn i chi dreulio amser yn gweithio ar draws y prosiectau hyn. Y cyfeirnodau WEFO ar gyfer y prosiectau hyn yw 80845, 80846, 80847 ac 80848.

MANYLEB UNIGOLYN

Mae'r canlynol yn *sgiliau hanfodol* (ni fydd ymgeiswyr na fydd yn gallu dangos y sgiliau hyn yn cael eu rhoi ar y rhestr fer)

1. Profiad byw a/neu brofiad o hyrwyddo nifer o nodweddion gwarchodedig

2. Dealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth gydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu a'i chymhwysiad ymarferol yn y gweithle

3. Ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y naw nodwedd warchodedig a'u rhyngblethedd

4. Profiad o ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a dealltwriaeth o wahanol ddulliau ymgysylltu

5. Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol, gan gynnwys llunio adroddiadau, ysgrifennu ar gyfer y we a chyfryngau cymdeithasol a gwneud cyflwyniadau

6. Profiad o feithrin cydberthnasau â rhanddeiliaid allweddol a phenderfynwyr ar bob lefel o fudiadau ac o gefndiroedd amrywiol

7. Gallu cynllunio a threfnu ei waith ei hun i derfynau amser lluosog a rheoli ei amser ei hun

8. Profiad o MS Office 365 (gan gynnwys Teams) ac o ddefnyddio TG

Mae'r canlynol yn *sgiliau allweddol*: (mae angen y sgiliau hyn ar gyfer y rôl, ond gellid eu hennill yn y swydd neu drwy hyfforddiant o fewn chwe mis i'r penodiad)

1. Dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol yng Nghymru ac o'r goblygiadau o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yng nghyd-destun dwy iaith swyddogol Cymru

2. Profiad o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

3. Gallu llunio adroddiadau ac adnoddau eraill

Mae'r canlynol yn *sgiliau dymunol*: (mae'r sgiliau hyn yn fanteisiol a byddent yn gwella'r cais)

1. Byddai sgiliau Cymraeg yn gaffaeliad i'r swydd; disgwylir i'r sawl a benodir ddangos ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chydymffurfio â nhw.